

Gwers 42 – Iesu'n mynd i'r nefoedd

Nodiadau Cefndir i'r Athro


Actau 1:1–14

Ychydig cyn y Groglith gyntaf llefarodd Iesu eiriau rhyfedd ac anodd eu deall wrth ei ddisgyblion. Meddai, 'Y mae'n fuddiol i chwi fy mod i'n mynd ymaith' (Ioan 16:7a). Efallai bod y disgyblion wedi meddwl fod y geiriau wedi eu gwireddu pan groeshoeliwyd a chladdwyd Iesu, ond yn awr yr oedd yn fyw. Yr oedd Iesu wedi dweud hefyd, 'Oherwydd os nad af, ni ddaw'r Eiriolwr atoch. A phan ddaw, fe argyhoedda ef y byd ynglŷn â phechod am nad ydynt yn credu ynof fi' (Ioan 16:7b).

Llyfr Actau'r Apostolion yw'r ail gyfrol o ddwy o law'r meddyg, Luc. Y mae Luc yn cyfeirio at y gyfrol gyntaf (yr Efengyl) ar ddechrau'r ail gyfrol ac mai eifwriad yno oedd ysgrifennu 'am yr holl bethau a ddechreuodd Iesu eu gwneud a'u dysgu' (Act. 1:1). Adroddodd fod Iesu wedi ymddangos i'w gyfeillion yn fyw dros gyfnod o ddeugain niwrnod, ac wedi siarsio 'iddynt beidio ag ymadael o Jerwsalem, ond disgwyl am yr hyn a addawodd y Tad' (Act. 1:4). Ei fwriad yn yr ail gyfrol yw dangos bod yr holl bethau a ddechreuodd Iesu eu gwneud a'u dysgu yn parhau a hynny o dan ddylanwad trydydd person y Drindod, Yr Ysbryd Glân, ac o fewn cymdeithas pobl Dduw, Yr Eglwys. Mae'n amlwg fod Luc yn ystyried y digwyddiad hwn yn un tra phwysig, oherwydd y mae'n cyfeirio ato ddwywaith. Ar derfyn ei Efengyl, rhydd ddarlun o Dduw'n coronni gweinidogaeth Iesu yn y cnawd. Ar ddechrau'r ail gyfrol, rhydd Luc esboniad ar y weithred o roi cychwyn i'r Eglwys Gristnogol. Trwy'r ddau adroddiad dengys Luc fod Iesu Grist yn orchfygwr ar angau, yn rheolwr ar fywyd, yn arweinydd i'w bobl ac yn un sy'n cadarnhau gwaith ei bobl.

Y term am yr hyn a ddigwyddodd i Iesu yma yw'r 'Esgyniad'. Nid yw'r digwyddiad hwn yn cael llawer o sylw gan yr Eglwys Gristnogol yng Nghymru, ond fe ddaeth yr Esgyniad neu'r 'Dyrchafael,' yn ffaith hanfodol yng nghredo a phrofiad yr Eglwys Fore. Er mor bwysig a chanolog oedd yr Atgyfodiad y mae'n debyg mai'r Esgyniad a roddodd ysbrydiaeth i aelodau'r Eglwys Fore. Dyrchafiad Iesu oedd yr allwedd i ddyfodiad yr Ysbryd Glân i nerthu ac arwain yr apostolion i'r dyfodol. Dyna oedd pwyslais Pedr ar ddydd y Pentecost pan ddywedodd, 'Felly, wedi iddo gael ei ddyrchafu i ddeheulaw Duw, a derbyn gan y Tad ei addewid am yr Ysbryd Glân, fe dywalltodd y peth hwn yr ydych chi yn ei weld a'i glywed.' (Act. 2:33).

Luc yw'r unig un sy'n disgrifio esgyniad Iesu fel digwyddiad gweledol er y mae sawl cyfeiriad ato mewn manau eraill, e.e. 1 Tim. 3:36 a 1 Pedr 3:21. Y mae'r adroddiad yn creu peth anhawster, oherwydd pan ddywed Luc, 'Fel yr oeddent yn syllu tua'r nefoedd ac yntau'n mynd', rhydd y syniad fod y nefoedd rhywle uwchben y ddaear. Ar un adeg credai pobl mewn bydysawd tri llawr, gyda'r nefoedd uwchlaw'r ddaear. Nid dyna syniad pobl yr unfed ganrif ar hugain, a byddai meddwl am Iesu'n diflannu o olwg ei ddisgyblion yn well, fel y mae'r geiriau 'a chipiodd cwmwl ef o'u golwg' (Act. 1:9b), yn ei awgrymu. Cofiw'n fod gan Iesu'r gallu i ymddangos trwy ddrysau cloëdig a diflannu (Luc 24:31; Ioan 20:19).



Ble mae lesu heddiw? Mae lesu'n byw yn y nef gyda Duw ei dad, ac yng nghalon pob un sy'n credu ynddo ac yn ei garu! Mae lesu'n mynd i bob man gyda'i ffrindiau – i'r ysgol, i'r parc, i'r siopau, ac i'r llyfrgell.

Diolch lesu dy fod wedi addo peidio â gadael dy ffrindiau – byth. Amen.

Gwers 42 – Iesu'n mynd i'r nefoedd



Iesu'n mynd i'r nefoedd | Beibl Newydd y Plant tud. 220

(Luc 24: 50–53, Actau 1:1–11)

Gwers 42

Iesu'n mynd i'r nefoedd

BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN /DROS 7 oed

Iesu'n mynd i'r nefoedd tud 176

BEIBL LLIW STORI DUW

Iesu'n mynd at Dduw tud 277

BEIBL BACH STORI DUW

Mynd adref tud 318

BEIBL NEWYDD Y STORIWR

Ffarwelio tud 144

BEIBL LLIW Y PLANT

Esgyniad Iesu tud 280

BEIBL NEWYDD Y PLANT

Iesu'n mynd i'r nefoedd tud 220

BEIBL BACH I BLANT

Iesu'n mynd adref tud 452

Y BEIBL I BLANT MEWN 365 STORÏAU

Adref i'r nefoedd(337) tud 383

BEIBL LLIW Y TEULU

Iesu'n esgyn i'r nefoedd(293) tud 153

Amser Chwarae

Bydd angen y lluniau o'r daflen waith (siop, ysgol, parc, llyfrgell – ar gael i lawrlwytho o www.ysgolsul.com), wedi'u gosod ar y waliau.

Edrychwch ar y lluniau gyda'r plant gan drafod yr achlysuron pan fyddant yn ymweld â'r gwahanol lefydd hyn. Anogwch bob plentyn i gyfrannu at y sgwrs. Holwch sut byddant yn cyrraedd y llefydd, e.e. cerdded, mewn car.

Wedyn, gofynnwch i bawb sefyll gyda'i gilydd yng nghanol yr ystafell. Gofynnwch i'r plant i 'deithio' i un o'r lleoliadau mewn modd penodol, e.e. 'Dwi am i bawb sgipio i'r llyfrgell'. Eglurwch ein bod am glywed am un o deithiau Iesu, ond taith rhyfeddol iawn!

Crefft

Bydd angen bisgedi plaen a phinnau eisin o liwiau amrywiol – mae'r rhain ar gael o archfarchnadoedd – addurniadau cacen megis peli bach a "sprinkles."

Addurnwch y bisgedi ac ar ôl gorffen, rhowch y bisgedi o'r golwg gan addo i'r plant y cânt eu bwyta ar ôl gwrando ar y stori. Pwysleiswch y ffaith eich bod yn addo gwneud hyn a'i bod yn anodd aros, ond disgwyl sydd raid gwneud.

Ar ôl y stori, cewch rannu'r bisgedi ac esbonio ein bod wedi aros i gael y bisgedi fel roedd Iesu wedi dweud wrth y disgyblion bod yn rhaid iddyn nhw aros am y rhodd arbennig yr oedd am ei roi iddynt. Cadwodd Iesu ei addewid fel y gwnaethoch chi gadw'r addewid am y bisgedi.

Amser Stori

Bydd angen balw'n i bawb a sticeri.

Darllenwch yr hanes o Feibl Newydd y Plant.

Wedyn, gofynnwch gwestiynau i'r plant i atgyfnerthu'r hanes. Rhowch falw'n i bob plentyn a'u cynorthwyo i greu wyneb arnynt gyda'r sticeri. Ar ôl iddynt orffen, cânt chwarae gyda'r balwnau, yn ceisio eu bwrw mor uchel â phosibl, ac yn gweiddi 'Aeth Iesu'n ôl i'r nef.'

Gweddi

Esboniwch wrth y plant ein bod yn medru siarad gyda Iesu, er nad ydym yn ei weld. Mae Iesu'n ein gweld ble bynnag yr ydym. Ac mae Iesu am inni siarad gydag ef. Gofynnwch am syniadau'r plant ynglŷn â ble y gallwn weddio. Defnyddiwch eu syniadau mewn gweddi syml, e.e. 'Diolch Iesu dy fod yn fy ngweld pan fyddaf yn chwarae yn yr ardd.' Efallai yr hoffech wahodd bob plentyn yn eu tro i gynnig syniad a wedyn gweddio.

Neu, cewch ddefnyddio'r lluniau o'r daflen waith eto, gan weddio wrth bob llun yn eu tro, e.e. 'Diolch Iesu am fod gyda ni yn y parc/ ysgol/ llyfrgell/ siop.'

Cân

I'r dôn 'The Grand Old Duke of York'

Newyddion da i chi, newyddion da i chi,
Newyddion da i bawb yn y byd,
Newyddion da i chi.

Mae Iesu Grist yn fyw, mae Iesu Grist yn fyw,
Newyddion da i bawb yn y byd,
Mae Iesu Grist yn fyw.

Mae Iesu'n caru ni, mae Iesu'n caru ni,
Newyddion da i bawb yn y byd,
Mae Iesu'n caru ni.

Adnoddau Ychwanegol

Gwerslyfrau Golau ar y Gair

Pasg: Iesu'r Brenin

Tafleini gwefan amserbeibl.org

Cyfres a, B a C - Y Groes a Iesu'n Marw

Cyfres DVD Stori Duw

Stori 48: Y Pasg Cyntaf

Cyfres Powerpoints Beibl Bach i Blant

Stori 58: Y Diwrnod mwyaf Hapus

Cwis a Chwilair

Llyfr Cwis Cynta i Ateb tud 352

Llyfrau Stori

Stori'r Pasg i Blant Bach

Stori'r Pasg

Rhywun Arbennig Iawn

Y Pasg Cyntaf

